

# LEFEL 2 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

## Pam dewis Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau?

Mae cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau consortiwm City & Guilds/CBAC yn addas i chi os ydych chi dros 16 oed ac mae gennych chi ddiddordeb mewn dysgu mwy am y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n addas os ydych chi wedi ennill cymhwyster Lefel 1 neu os nad oes unrhyw wybodaeth flaenorol gennych chi o'r sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Mae'r cymhwyster yn eich galluogi chi i feithrin a dangos eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o fewn cyd-destun ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae gofyn i chi eu cyflawni yn rhan o'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Os ydych chi'n dilyn y cymhwyster hwn, argymhellir yn gryf eich bod wedi cwblhau'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu eich bod yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Yn ôl gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru dylai unigolyn sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol gael y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd i weithio mewn rolau swyddi penodol.

## Beth fyddaf yn ei astudio?

Mae cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn cynnwys dwy uned orfodol.

### Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd

Drwy'r uned hon, sy'n cael ei hasesu'n allanol drwy arholiad, byddwch chi'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- agweddau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar draws rhychwant oes unigolion
- dylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd ar dwf, iechyd a llesiant
- y ffactorau sy'n llywio hunangysyniad
- rôl a phwrpas hybu iechyd a llesiant

### Uned 2: Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog

Fel rhan o'r uned hon, sy'n cael ei hasesu'n fewnol drwy asesiad di-arholiad, rhaid i chi hefyd dreulio isafswm o **dddeg diwrnod yn ymgysylltu â'r sector**, a rhaid treulio o leiaf **pump** o'r diwrnodau hynny (30 awr) ar **leoliad gwaith**.

Drwy'r cynnwys sy'n cael ei addysgu yn yr uned hon a'ch cyfnod ymgysylltu â'r sector, byddwch chi'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- yr amrywiaeth o anghenion unigol ar draws y rhychwant oes
- yr amrywiaeth o gyfleoedd a heriau yn lleol a ledled Cymru
- rolau a chyfrifoldebau gweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol
- deddfwriaeth ac egwyddorion gofal a chymorth.

# LEFEL 2 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU



## Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?

Drwy astudio Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, byddwch chi'n gallu meithrin a dangos eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, byddwch chi'n gallu dangos eich bod yn:

- deall yr egwyddorion craidd a'r gwerthoedd sy'n sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu eu cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
- deall sut y gellir nodi anghenion unigryw unigolion ac ymateb iddynt
- gallu myfyrio ar sut y caiff dulliau gweithredu person-ganolog eu defnyddio mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
- deall rolau swyddi a swyddogaethau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol
- deall sut mae lleoliadau, asiantaethau a gwasanaethau gwahanol yn cydweithio er mwyn darparu gofal i unigolion
- gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eich astudiaethau.

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

**Bydd Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd yn cael ei hasesu drwy arholiad ysgrifenedig sydd:**

- yn 90 munud o hyd
- yn werth 40% o'r cymhwyster
- allan o 80 marc
- yn gallu cael ei sefyll naill ai ar-sgrin neu fel papur ysgrifenedig
- yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau
- yn cynnwys cwestiynau gorfodol yn unig

**Bydd Uned 2: Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC.**

- Bydd 10 awr yn cael eu dyrannu ar gyfer yr asesiad hwn
- Mae'n werth 60% o'r cymhwyster
- Bydd yn cael ei farcio allan o 120 o farciau
- Mae'n cynnwys dau aseiniad
- **Aseiniad 1:** Bydd angen cwblhau tasgau gosod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno mewn un o ddwy astudiaeth achos a fydd yn cael eu rhyddhau'n flynyddol gan CBAC.
- **Aseiniad 2:** Bydd angen cwblhau tasgau a fydd yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych chi wedi'i meithrin drwy eich cyfnod yn ymgysylltu â'r sector. Bydd angen cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer y ddau aseiniad. assignments.

## Gyrfaoedd gyda Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol Egwyddorion a Chyd-destunau

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dilyniant i ddysgu/hyfforddiant a/neu gymwysterau pellach, gan gynnwys:

- Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Prentisiaethau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol